Institute for the Study of Welsh Estates

Current PhD Research Project Ideas

The Institute for the Study of Welsh Estates (ISWE) is dedicated to promoting research into the history, impact and functioning of Welsh estates. ISWE works with a number of Academic Schools within the College of Arts and Humanities – including the School of History and Archaeology, the School of English Literature, the School of Music and the School of Welsh – and would welcome enquiries about developing/ potential doctoral projects focusing on estate archives and the history, culture and landscapes of Wales, including:

- The impacts and influence of the Penrhyn Estate
- *Plastai*: Exploring the links between bardic and building culture in Wales, c.1450-1650
- Coming of Age celebrations in Wales, c.1740-1930: community relations, dynastic continuity and contesting Welsh identity
- Fashioning the Penrhyn Estate: architecture, agriculture, industry and land agency – the Wyatt influence
- Patronage and performance: Music in Welsh households
- Country house libraries
- A multilingual domain? Landlords, tenants and the place of the Welsh language on estates
- Estate maps and dynastic landscapes (including GIS approaches)
- Death, commemoration and demographic crises
- Forestry and the Welsh estate (historical perspectives and heritage potential)
- Projects utilising the records held by *Bangor University Archives and Special Collections*

Enquiries are also encouraged from those seeking to develop a specific research topic of their own.

Please note: the research project opportunities listed above are NOT funded by the University. All candidates must secure their own funding to meet the costs of PhD study. You can find information about available **scholarships and bursaries** on our website.

If you would like **to discuss research proposals**, please contact iswe@bangor.ac.uk.

For more information about PhD study and the application process please contact the College of Arts and Humanities' Postgraduate Admissions Administrator (pgadmissionscah@bangor.ac.uk).

Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru

Syniadau Cyfredol Projectau Ymchwil PhD

Nod Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yw hyrwyddo ymchwil i hanes, dylanwad a threfniadaeth ystadau Cymru. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda nifer o Ysgolion Academaidd o fewn Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau - gan gynnwys yr Ysgol Hanes ac Archeoleg, yr Ysgol Llenyddiaeth Saesneg, yr Ysgol Cerddoriaeth ac Ysgol y Gymraeg - a byddem yn croesawu ymholiadau ynglŷn â datblygu projectau doethurol posibl sy'n canolbwyntio ar archifau ystadau ac ar hanes, diwylliant a thirwedd Cymru, gan gynnwys:

- Effaith a dylanwad Ystâd y Penrhyn
- Plastai: Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant barddol ac adeiladu yng Nghymru, c.1450-1650
- Dathliadau troi'n oedolyn yng Nghymru, c1740-1930: cysylltiadau cymunedol, parhad llinachyddol a'r ddadl ynghylch hunaniaeth Gymreig
- Creu ystâd y Penrhyn: pensaernïaeth, amaethyddiaeth, diwydiant ac asiantaethau tir - dylanwad Wyatt
- Perfformio a Nawdd: Cerddoriaeth yng nghartrefi Cymru
- Llyfrgelloedd plastai gwledig
- Parth amlieithog? Landlordiaid, tenantiaid a safle'r Gymraeg mewn ystadau
- Mapiau ystadau a thirweddau llinachyddol (gan gynnwys dulliau GIS)
- Marwolaeth, coffau ac argyfyngau demograffig
- Coedwigaeth ac Ystadau Cymru (safbwyntiau hanesyddol a photensial treftadaeth)
- Projectau sy'n defnyddio'r cofnodion a gedwir yn Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor

Rydym hefyd yn annog y rhai hynny sy'n bwriadu datblygu eu pwnc ymchwil penodol eu hunain i wneud ymholiadau.

Sylwch: NID yw'r cyfleoedd a restrir uchod i wneud projectau ymchwil yn cael eu cyllido gan y Brifysgol. Rhaid i'r holl ymgeiswyr sicrhau eu cyllid eu hunain i dalu am gostau astudiaeth PhD. Cewch ragor o wybodaeth am **yr ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael** ar ein gwefan.

Os hoffech **drafod cynnig ymchwil**, cysylltwch ag iswe@bangor.ac.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am astudiaethau PhD ac am y broses o wneud cais cysylltwch â Gweinyddwr Derbyniadau Ôl-radd Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau (pgadmissionscah@bangor.ac.uk).